**Atodiad 1**

## Deilliant 1

**Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg yn amlwg ar wefan y sir ac ar dudalen X Sir Ddinbych.
- Mae gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg i blant cyn oed ysgol ar wefan y sir.
- Rydym wedi cydweithio gyda Menter Iaith Sir Ddinbych a RHAG i gynhyrchu cardiau post i'w rhannu yn y gymuned, fydd yn cynnwys codau QR yn cyfeirio rhieni a darpar rieni at wybodaeth a digwyddiadau am y Gymraeg ac addysg Gymraeg.
- Mae nifer y Cylchoedd Meithrin a nifer y plant sy'n mynychu'r cylchoedd yn cynnyddu.
- Mae canran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnyddu.
- Mae nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg yn cynnyddu.
- Erbyn hyn mae cylch meithrin ar dir pob ysgol / neu o fewn pellter cerdded agos i bob ysgol Gymraeg yn Sir Ddinbych oni bai am Ysgol Betws Gwerfyl Goch (Fodd bynnag mae Cylch Ti a Fi wedi ei sefydlu yma). Mae cylch Rhuthun wedi symud i adeilad sydd wedi ei addasu yn Rhuthun ac felly o fewn pellter cerdded i Ysgol Pen Barras. Mae Cylch Meithrin wedi ail agor yn Ysgol Bro Dyfrdwy.
- Mae'r awdurdod wedi defnyddio Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i adnabod meysydd i'w datblygu.
- Cyflwynwyd cais am gyllid i Gronfa Cyfalaf Gofal Plant Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth ar gyfer datblygiadau yn Ysgol y Llys a Ysgol Bro Elwern. Rydym yn aros am ymateb i'r cais hwn gan Lywodraeth Cymru.
- Mae datblygu safleoedd yn Rhuthun ac Ysgol Dewi Sant yn brosiectau tymor hir. Grantiau Cyfalaf Mudiad Meithrin
- Mae prosiectau ar y gweill i ddatblygu safleoedd ar dir Ysgol Twm o'r Nant, Ysgol y Llys, Ysgol Gwernant, Llangollen ac Ysgol Llanrhaeadr.

## Deilliant 2

**Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

• Mae nifer a chanran y dysgwyr yn y Dosbarth Derbyn sy’n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynnyddu, ond mae effaith y pandemig yn arbennig ar y ddwy ysgol Gymraeg fwyaf yng ngogledd y sir wedi gweld y niferoedd yn gostwng yn 2023-24.
• Mae nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 1 sy’n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynnyddu 1.4% rhwng 2022-23 a 2023-24.
• Mae 8 ysgol cyfrwng Cymraeg unai yn llawn, neu bron yn llawn.
• Mae’r nifer uchaf o lefydd gweigion yn ein ysgolion mwyaf .e.e Glan Clwyd, Y Llys a Dewi Sant.
• Rhaid nodi fodd bynnag, nad yw’r data yn cynnwys dosbarthiadau meithrin ysgolion, sydd yn gwneud i’r llefydd gweigion ymddangs yn fwy.
• Mae CSDd, Menter Iaith Dinbych a RHAG wedi bod yn cydweithio, drwy gynnal digwyddiadau a chreu platfformau digidol i annog rhieni ar y glannau i yrru eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
• Mae niferoedd y dysgwyr wedi cofrestru i ddechrau yn ysgol Y Llys a Dewi Sant ym Medi 2024 yn sylweddol uwch na 2022 a 2023.
• Mae niferoedd y disgyblion mewn dwy o’n hysgolion lleiaf yn pery pryder i ni.
• Mae prosiectau adeiladu mewn tair ysgol (Ysgol Bro Elwern, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol Henllan) yn datblygu.
• Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddi i adeiladu estyniad i Ysgol Gwernant.
• Mae 6 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi nodi eu bod yn ysgolion categori T2. Gyda chefnogaeth swyddogion yr awdurdod, bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn cynnyddu yn yr ysgolion hyn dros gyfnod o amser.
• Mae swyddogion yr awdurdod yn gweithio’n agos gyda’r 6 ysgol T6 i fapio eu taith ieithyddol a chreu cynlluniau gweithredu manwl i gynnyddu’r defnydd o’r Gymraeg.
• Mae model Sir Ddinbych o gefnogi hwyrddyfodiaid yn esblygu ac yn datblygu’n dda. Mae dwy aelod o staff yn rhoi cefnogaeth allgymorth i’r hwyrddyfodiaid ac mae niferoedd yn codi pob tymor.

**Deilliant 3**

**Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

- Mae unig ysgol gynradd categori 1 a 3 yn y sir wedi nodi na fydd dysgwyr o'r dosbarth Meithrin a Derbyn eleni, yn cael yr opsiwn o ddewis Saesneg fel cyfrwng eu haddysg nes y byddant ym mlwyddyn 3. Rydym mewn trafodaethau cyson i geisio newid yr ysgol yn ysgol Gymraeg, categori 3.
- Mae 93% o ddysgwyr blwyddyn 6 ysgolion cyfrwng Cymraeg Sir Ddinbych yn mynd i ysgol/ffrwd Gymraeg yn yr uwchradd.
- Mae swyddogion y sir, penaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfarfod i lunio strategaethau a gweithdrefnau clir i annog dysgwyr i barhau ag addysg Gymraeg yn yr uwchradd.
- Mae staff Ysgol Glan Clwyd a swyddogion y sir yn cydweithio ac yn ymweld â rhai ysgolion cynradd ysgolion Saesneg i annog dysgwyr i fynd i'r dosbarth trochi ym mlwyddyn 7.
- Mae swyddogion y sir yn cefnogi unigolion blwyddyn 6 sydd wedi dewis mynd i'r dosbarth trochi.
- Mae cynlluniau ar y gweill i agor dosbarth trochi yn ysgol Brynhyfryd.

## Deilliant 4

**Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae swyddogion y sir yn cydweithio'n agos gyda'r 6 ysgol T2 i fapio eu taith ieithyddol, llunio cynlluniau gweithredu manwl, hyfforddi a chefnogi staff a monitro datblygiadau.
- Mae nifer a chanran y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, TGAU Cymraeg Ail Iaith wedi cynnyddu.
- Mae mwy o ddysgwyr yn dilyn cwrs Cymraeg mamiaith Safon Uwch ond llai yn dilyn cwrs AS.
- Mae mwy o ddysgwyr yn dilyn cwrs Cymraeg fel ail iaith AS a Safon Uwch.
- Mae'r ddwy ysgol uwchradd categori 2 yn cynnig mwy o bynciau trwy'r Gymraeg nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Rydym mewn trafodaethau cyson gyda'r ddwy ysgol uwchradd yn ne'r sir i gynnyddu'r cynnig i astudio mwy o bynciau trwy'r Gymraeg.
- Yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid y 3 ysgol sy'n cynnig addysg Gymraeg, mae nhw yn awyddus iawn i edrych ar e-sgol fel modd o gynnig mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym mewn trafodaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weld sut gellir annog mwy o fyfyrwyr i astudio meysydd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae rhwydweithiau uwchradd Sir Ddinbych ( un mamiaith ac un arall ail iaith) wedi eu creu i gynnig cefnogaeth i gydlynwyr Cymraeg

**Deilliant 5**
**Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol**

**Siarter Iaith**

- Mae swyddog cefnogi'r Gymraeg wedi creu gwefan 'Sglein ar Lein' sy'n adnodd defnyddiol iawn i athrawon ei ddefnyddio i ddatblygu llafaredd dysgwyr ar draws camau cynnydd 1, 2 a 3.
- Mae cynllun llafaredd y sir wedi bod yn weithredol yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ers Medi 2023 a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Mae cynlluniau ar waith i greu gwefan ar wahân i Sglein Ar-lein ar gyfer hybu a dathlu'r Siarter Iaith.
- Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr aur ac rydym yn monitro i sicrhau bod y safonau aur yn cael eu cadw.
- Mae cynlluniau ar waith hefyd i gydweithio gyda Chonwy a Gwynedd i gyflwyno'r Siarter yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Glan Clwyd wedi sefydlu 'Byw'r Gymraeg' ac rydym mewn trafodaethau i ddatblygu hyn ymhellach).
- Mae ymweliadau tymhorol yn digwydd gyda phob ysgol i gyfarfod penaethiaid + chydlynwyr, hyfforddi staff, enghreifftio chwaraeon buarth, cyfarfod Criwiau Cymraeg, cyfarfod cydlynywyr yn y Ganolfan Iaith ayyb.
- Mae'r swyddog hefyd yn rhan o weithgaredd hunan werthuso pob ysgol yn ogystal â helpu i adnabod blaenoriaethau ar gyfer Cynlluniau Datblygu pob ysgol.
- Mae cydweithio effeithol wedi dechrau gyda Sir Conwy.

- **Cymraeg Campus**
- Mae 25 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd Cymraeg Campus.
- Mae 7 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr arian Cymraeg Campus.
- Mae ysgolion yn cael eu targedu pob blwyddyn i anelu at ennill y wobr nesaf.
- Mae swyddog yr awdurdod yn cefnogi'r ysgolion yn effeithiol i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg.
- Creuwyd Fframwaith Cymraeg Campus o'r newydd ar gyfer y 7 ysgol uwchradd sy'n cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yn y sir.
- Mae'r fframwaith wedi ei greu a'i rannu gyda'r cydlynwyr a thimau rheoli'r 7 ysgol uwchradd sy'n cyflwyno Cymraeg fel ail iaith.
- Mae'r 7 ysgol wedi ymrwymo i weithredu Cymraeg Campus i ddatblygu'r Gymraeg.
- Mae adnoddau ar gael a chefnogaeth i ysgolion i dderbyn y wobr efydd, arian ac aur.
- Mae Ysgol Uwchradd Dinbych wedi derbyn y wobr efydd ac yn cael ei dilysu ar gyfer y wobr arian yn nhymor yr Hydref.
- Rhagwelir y bydd o leiaf dwy ysgol arall yn derbyn y wobr efydd flwyddyn nesaf.
- Mae'r awdurdod yn cydweithio gyda'r Urdd a Maenter Iaith i flaenoriaethu cefnogaeth i rhai ysgolion ac i lunio amserlen o ymweliadau.

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae awdit blynyddol yn cael ei gynnal i gywain gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg o fewn adrannau ADY yr awdurdod.

1. Adrannau ADY yr awdurdod

- Mae pob adran (ar wahan i addysgu o gartref) yn medru cynnig gwasanaeth a chefnogaeth yn y Gymraeg i ddysgwyr sy'n dymuno hynny.
- Nid oes unrhyw adran wedi gorfod gwrthod cefnogaeth i unrhyw ddysgwr sy'n dymuno cefnogaeth trwy'r Gymraeg yn ystod y tair mlynedd ddiwethaf.
- Mae prinder adnoddau Cymraeg yn anodd i adrannau ADY y sir.
- Mae recriwtio staff sy'n medru siarad Cymraeg yn broblem.
- Mae'r awdurdod wedi hwyluso bod aelod o staff y cyngor yn cael ei hyfforddi i fod yn seicolegydd addysg. Bydd yr unigolion hyn yn gweithio i'r awdurdod fel seicolegydd addysg ar ddiwedd ei chyfnod hyfforddi.

2. ADY ysgolion cyfrwng Cymraeg

- Mae 81% o'r cydlynwyr yn nodi bod eu hysgolion yn diwallu anghenion dysgu eu dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Prif heriau – prinder adnoddau, diffyg staff/cymhorthyddion yn siarad Cymraeg, safon ieithyddol y dysgwyr yn gyffredinol isel.
- Mae 75% yn cydweithio'n effeithiol fel clwstwr. O'r 25% oedd ddim yn cydweithio'n effeithiol, roedd cydlynydd ADY yr ysgol a chydlynydd ADY y clwstwr yn newydd i'r swydd.
- Nododd 100% nad oes digon o adnoddau ar gael trwy'r Gymraeg. Er bod adnoddau'n cael eu rhannu rhwng ysgolion, roedd bylchau amlwg mewn profion asesu, cyfresi a llyfrau darllen, adnoddau i gefnogi sillafu, rhaglenni ymyrraeth megis Toe by Toe, rhestrau gwirio anhwylderau e.e dyslecsia, adhd. System IDL yn Gymraeg.
- Mae 75% yn credu bod adrannau ADY yr awdurdod yn rhoi cefnogaeth dda i ysgolion. Nododd 25 % mai prinder deunyddiau, adnoddau a staff Cymraeg oedd y prif heriau yma.

3. Penaethiaid y dair ysgol arbennig

- Prin iawn yw'r dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn yr ysgolion.
- Mae ambell blentyn yn cael cyfran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae athrawon a chymhorthyddion yn y dair ysgol â'r gallu i gefnogi dysgwyr trwy'r Gymraeg.
- Er bod y cynnig a'r ddarpariaeth yn yr ysgolion, nid oes rhiant/dysgwr wedi gofyn am agweddau o'r cwricwlwm gael eu haddysgu trwy'r Gymraeg yn y 3 blynedd diwethaf.

Mae cynnal awdit blynyddol wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ysgogi sgwrs ymysg y gwahanol rhanddeiliaid ac i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae'r gefnogaeth trwy'r Gymraeg i ddysgwyr ADY y sir yn bositif ond mae heriau amlwg yn ein hwynebu, yn arbennig y diffyg adnoddau Cymraeg a'r prinder staff sy'n medru siarad Cymraeg.

Nid oes patrymau amlwg o ddewis (neu symud) i addysg cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg yn narpariaeth neu adnoddau Cymraeg.
Mae'r cydweithio mwyaf effeithiol yn digwydd o fewn clystyrau i rannu adnoddau ac arbenigedd. Mae cyfarfodydd trawssirol i swyddogion ADY yr awdurdod ac rydym yn rhannu gwasanaethau megis y Gwasanaeth Synhwyraidd gyda siroedd cyfagos. Mae Seicolegydd Addysg Sir Ddinbych yn gwneud peth gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg mewn siroedd eraill.

**Deilliant 7**
**Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.**

- Mae cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cynnydd hefyd yn nifer yr athrawon sydd ddim yn medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nid oes patrwm arwyddocaol yn y data, ond mae'n adlewyrchu' her genedlaethol i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.
- Mae'r awdurdod yn parhau i hyrwyddo'r cwrs sabothol ac yn falch o ddweud bod 5 athro ar y cwrs eleni gyda un o'r athrawon hyn yn gweithio mewn ysgol drosiannol T2.
- Mae staff ysgolion wedi cael cyflwyniadau am gyrsiau Dysgu Cymraeg gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Mae'r awdurdod wedi trefnu bod 4 athro o'n hysgolion T2 yn mynychu cwrs peilot ar y cyd gydag athrawon o ysgolion T2 Sir Conwy.
- Mae 6 aelod o staff yn y Tim Cefnogi'r Gymraeg,yn golygu bod cefnogaeth i staff ac athrawon yn y sectorau cynradd ac uwchradd, Cymraeg neu Saesneg eu cyfrwng yn ogystal â chefnogaeth i hwyrddyfodiaid.
- Mae'r strwythur cefnogaeth wedi hwyluso sesiynnau hyfforddiant, cyfarfodydd ac ymweliadau er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion.
- Mae rhwydweithiau ysgolion uwchradd wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i gydlynwyr y Gymraeg drafod syniadau a rhannnu arfeion da.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth ymysg penaethiaid holl ysgolion yr awdurdod am yr angen i gynllunio'n fwriadus i ddatblygu'r gweithlu ac i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Mae swyddogion y Tim Cefnogi'r Gymraeg, wedi creu a rhannu cynllun datblygu'r Gymraeg gydag arweinwyr ysgolion gan nodi gam wrth gam, sut i ddatblygu llafaredd a'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
- Law yn llaw â'r cynllun, mae rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr wedi ei rhannu gan yr awdurdod.
- Mae cynlluniau gwaith datblygu llafaredd wedi eu creu a'u rhannu gyda'r ysgolion.
- Mae'r wefan 'Sglein ar Lein' yn adnodd gwych i athrawon i'w galluogi i gyflwyno patrymau iaith i'r dysgwyr.
- Mae swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a GwE yn adnabod darpar arweinwyr o fewn y sector Gymraeg a'u datblygu'n broffesiynol.
- Mae swyddogion y sir yn astudio'r SWAC a gwneud awdit o ddarpar arweinwyr sy'n dysgu yn y sector Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae 5 swydd Pennaeth mewn ysgol Gymraeg wedi ei llenwi eleni.

- Mae recriwtio i'r sector gofal plant yn bryder gan na all y cylchoedd fod ar agor os nad oes cymhwyster cywir gyda'r aelod staff.
- Mae Mudiad Meithrin yn darparu llawer o gyfleodd i staff drwy gyrsiau megis Cam wrth Gam a Croesi'r Bont i staff cylchoedd meithrin ac hefyd i staff lleoliadau Saesneg.
- Mae'r Mudiad yn gweithio'n agos gyda ysgolion ac yn cynnig eu gwasanaeth i staff ysgolion
- Mae'r Tim Cynhwysiant a Addysg Gynnar Blynyddoedd Cynnar wedi penodi dwy athrawes ymgynghorol sy'n siarad Cymraeg. Mae nhw'n cefnogi cylchoedd, darparu hyfforddiant Cymraeg i staff y lleoliadau ac yn gweithio ar y cyd â Mudiad Meithrin ac athrawon ymgynghorol y Gymraeg i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau Saesneg eu hiaith.
- Mae'r Tim Gofal Plant a Datblygu Chwarae yn gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i recriwtio siaradwyr Cymraeg i ystyried gyrfa ym maes gwarchod plant.
- Mae hyfforddiant trwy Camau yn cael ei hyrwyddo i gefnogi ymarferwyr sydd am ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.